



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2015 Rhif 1496 (Cy. 168)**

**2015 No. 1496 (W. 168)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau)  
(Cymru) 2015**

**The Higher Education (Amounts)  
(Wales) Regulations 2015**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r uchafswm y bydd sefydliad sydd â chynllun ffioedd a mynediad a gymeradwywyd mewn grym yn gallu ei godi drwy ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau gradd llawnamser.

Mae rheoliad 3 yn rhagnodi'r uchafswm a fydd yn gymwys. Mae rheoliadau 4, 5 a 6 yn rhagnodi uchafsymiau is mewn cysylltiad â rhai cyrsiau.

Mae rheoliad 7 yn darparu, pan fo cwrs yn gwrs breiniol, fod ffioedd i'w trin fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad y darperir y cwrs ar ei ran, a bod rhaid i gyfanswm y ffioedd y mae myfyriwr yn eu talu beidio â bod yn fwy na'r swm a ragnodir gan y Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Addysg Uwch, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe the maximum amount which an institution with an approved fee and access plan in force will be able to charge by way of tuition fees for full-time undergraduate courses.

Regulation 3 prescribes the maximum amount which will apply. Regulations 4, 5 and 6 prescribe lower maximum amounts in respect of certain courses.

Regulation 7 provides that, where a course is a franchised course, fees are to be treated as payable to the institution on whose behalf the course is provided, and that the total fees that a student pays must not exceed the amount prescribed by these Regulations.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Higher Education Division, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2015 Rhif 1496 (Cy. 168)**

**2015 No. 1496 (W. 168)**

**ADDYSG, CYMRU**

**EDUCATION, WALES**

**Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau)  
(Cymru) 2015**

**The Higher Education (Amounts)  
(Wales) Regulations 2015**

*Gwnaed* 7 Gorffennaf 2015  
*Yn dod i rym* 31 Gorffennaf 2015

*Made* 7 July 2015  
*Coming into force* 31 July 2015

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 5(3), 5(9) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015(1).

These Regulations are made by the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on them by sections 5(3), 5(9) and 55(2) of the Higher Education (Wales) Act 2015(1).

Yn unol ag adran 55(3) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

In accordance with section 55(3) of the Higher Education (Wales) Act 2015 a draft of these Regulations was laid before and approved by a resolution of the National Assembly for Wales.

**Enwi, cychwyn a chymhwys**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Title, commencement and application**

1.—(1) The title of these Regulations is the Higher Education (Amounts) (Wales) Regulations 2015 and they come into force on 31 July 2015.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Dehongli**

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “cwrs rhyngosod” (“*sandwich course*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2015(2);

ystyr “Deddf 2015” (“*the 2015 Act*”) yw Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015;

ystyr “hyfforddiant cychwynnol athrawon” (“*initial training of teachers*”) yw hyfforddiant neu addysg â'r nod o wneud personau, nad ydynt yn athrawon, yn addas i fod yn athrawon;

**Interpretation**

2. In these Regulations—

“the 2015 Act” (“*Deddf 2015*”) means the Higher Education (Wales) Act 2015;

“initial training of teachers” (“*hyfforddiant cychwynnol athrawon*”) is training or education with the object of fitting persons, who are not teachers, to be teachers;

“overseas institution” (“*sefydliad tramor*”) means an institution other than one in Wales, England, Scotland, Northern Ireland, the Channel Islands or the Isle of Man;

---

(1) 2015 decc 1.  
(2) O.S. 2015/54 (Cy. 5).

---

(1) 2015 anaw 1.

ystyr “sefydliad tramor” (“*overseas institution*”) yw sefydliad heblaw un yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw.

### **Yr uchafswm rhagnodedig**

3. Yn ddarostyngedig i reoliadau 4, 5 a 6, yr uchafswm rhagnodedig at ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015 yw £9,000.

### **Yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer blynyddoedd academaidd terfynol cyrsiau a blynyddoedd academaidd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon**

4. At ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015, rhagnodir mai'r uchafswm yw £4,500 mewn cysylltiad â:

- (a) blwyddyn academaidd derfynol cwrs pan fo'n ofynnol i'r flwyddyn academaidd honno fel rheol gael ei chwblhau ar ôl llai na 15 wythnos o bresenoldeb;
- (b) cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon (gan gynnwys cwrs o'r fath sy'n arwain at radd gyntaf), blwyddyn academaidd pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos.

### **Yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer cyrsiau rhyngosod**

5. At ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015, rhagnodir mai'r uchafswm yw £1,800 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs rhyngosod:

- (a) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn llai na 10 wythnos; neu
- (b) os yw cyfanswm unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, yn fwy na 30 wythnos.

### **Yr uchafswm rhagnodedig ar gyfer astudio a lleoliadau gwaith dramor**

6. At ddibenion adran 5(3) o Ddeddf 2015, rhagnodir mai'r uchafswm yw £1,350 mewn cysylltiad â blwyddyn academaidd cwrs a ddarperir ar y cyd â sefydliad tramor:

“sandwich course” (“*cwrs rhyngosod*”) has the meaning given in regulation 2(1) of the Education (Student Support) (Wales) Regulations 2015(1).

### **Prescribed maximum amount**

3. Subject to regulations 4, 5 and 6 the prescribed maximum amount for the purposes of section 5(3) of the 2015 Act is £9,000.

### **Prescribed maximum amount for the final academic years of courses and academic years of courses of initial training of teachers**

4. For the purposes of section 5(3) of the 2015 Act the maximum amount is prescribed as £4,500 in respect of:

- (a) the final academic year of a course where that academic year is normally required to be completed after less than 15 weeks' attendance;
- (b) a course of initial training of teachers (including such a course leading to a first degree), an academic year during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks.

### **Prescribed maximum amount for sandwich courses**

5. For the purposes of section 5(3) of the 2015 Act the maximum amount is prescribed as £1,800 in respect of an academic year of a sandwich course:

- (a) during which any periods of full time study are in aggregate less than 10 weeks; or
- (b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full time study at the institution (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

### **Prescribed maximum amount for study and work placements overseas**

6. For the purposes of section 5(3) of the 2015 Act the maximum amount is prescribed as £1,350 in respect of an academic year of a course provided in conjunction with an overseas institution:

---

(1) S.I. 2015/54 (W. 5).

- (a) pryd y mae cyfanswm unrhyw gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig yn llai na 10 wythnos; neu
- (b) os yw cyfanswm unrhyw un neu ragor o gyfnodau o bresenoldeb nad ydynt yn gyfnodau o astudio llawnamser yn y sefydliad yn y Deyrnas Unedig (gan ddiystyru gwyliau yn y cyfamser), mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd honno ac unrhyw flynyddoedd academaidd blaenorol ar y cwrs, yn fwy na 30 wythnos.

### **Ffioedd sy'n daladwy i bersonau eraill**

7. At ddibenion adran 5(9) o Ddeddf 2015, mae ffioedd i'w trin fel pe baent yn cael eu talu i sefydliad rheoleiddiedig o dan adran 5(2)(a) o Ddeddf 2015 yn yr amgylchiadau a ganlyn, sef pan fo'r ffioedd yn daladwy i berson mewn cysylltiad â chwrs cymhwysol a ddarperir ar ran sefydliad rheoleiddiedig gan y person hwnnw.

- (a) during which any periods of full time study at the institution in the United Kingdom are in aggregate less than 10 weeks; or
- (b) if in respect of that academic year and any previous academic years of the course the aggregate of any one or more periods of attendance which are not periods of full time study at the institution in the United Kingdom (disregarding intervening vacations) exceeds 30 weeks.

### **Fees payable to other persons**

7. For the purposes of section 5(9) of the 2015 Act the circumstances in which fees are to be treated as being paid to a regulated institution under section 5(2)(a) of the 2015 Act are where the fees are payable to a person in respect of a qualifying course provided on behalf of a regulated institution by that person.

*Huw Lewis*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru  
7 Gorffennaf 2015

Minister for Education and Skills, one of the Welsh Ministers  
7 July 2015

©<sup>©</sup>Hawlfraint y Goron 2015

© Crown copyright 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

